

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Trefniadau etholiadol ar gyfer y Cynulliad yn y dyfodol

Mehefin 2012

Mae'r papur ymchwil hwn yn crynhoi'r opsiynau a'r cynigion sydd wedi'u cynnwys ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth y DU mewn perthynas â newid trefniadau etholiadol y Cynulliad.

Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth gefndir am y cynigion hynny a'r ymatebion cychwynnol iddynt ac mae'n rhoi trosolwg ar sefyllfa yn yr Alban lle mae ffiniau seneddol y DU a'r Alban wedi'u datgysylltu ers 2004.

Gwasanaeth  
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
**[www.cynulliadcymru.org/research](http://www.cynulliadcymru.org/research)**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA**

E-bost: **[Research.Service@wales.gov.uk](mailto:Research.Service@wales.gov.uk)**

Twitter: **[@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/1464

## **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Trefniadau etholiadol ar gyfer y  
Cynulliad yn y dyfodol

Mehefin 2012

Owain Roberts

Rhif dogfen: 12/026



Gwasanaeth  
Ymchwil



# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b> .....	<b>1</b>
<b>2. Cynigion yn ymwneud â newid etholaethau'r Cynulliad</b> .....	<b>3</b>
2.1. Opsiwn 1: parhau â'r 40 etholaeth Cynulliad.....	3
2.2. Opsiwn 2: Ailsefydlu'r cysylltiad rhwng etholaethau'r Cynulliad ac etholaethau senedd y DU .....	4
<b>3. Cynigion eraill yn y Papur Gwyrdd</b> .....	<b>6</b>
3.1. Hyd tymhorau'r Cynulliad .....	6
3.2. Ymgeiswyr deul.....	6
3.3. Mandadau lluosog.....	7
<b>4. Ymatebion</b> .....	<b>8</b>
<b>5. Datgysylltu etholaethau yn yr Alban</b> .....	<b>13</b>



# Trefniadau etholiadol ar gyfer y Cynulliad yn y dyfodol

## 1. Cyflwyniad

Ar 21 Mai 2012, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS (“yr Ysgrifennydd Gwladol”), ymgynghoriad [Papur Gwyrdd](#) ynghylch trefniadau etholiadol y Cynulliad yn y dyfodol. Mae’r Papur Gwyrdd:

... yn amlinellu opsiynau a chynigion y Llywodraeth ar gyfer newidiadau i gyfansoddiad y Cynulliad, yn cynnwys nifer etholaethau’r Cynulliad, hyd tymhorau’r Cynulliad, hawl ymgeiswyr i sefyll yn yr un etholiad mewn etholaeth Cynulliad a rhanbarth a hawl Aelodau’r Cynulliad i eistedd yn Senedd San Steffan hefyd ar yr un pryd.<sup>1</sup>

Cyflwynwyd y cynigion yn y Papur Gwyrdd o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd gan lywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a’r Democratiaid Rhyddfrydol, a grëwyd ym mis Mai 2010, fel rhan o’i rhaglen o ddiwygiadau cyfansoddiadol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- cynnig i leihau maint Tŷ’r Cyffredin o 650 i 600 o Aelodau; a
- sefydlu tymhorau penodol o bum mlynedd ar gyfer pob senedd, gan gynnwys etholiad cyffredinol nesaf y DU ar 7 Mai 2015.

Mae’r Papur Gwyrdd yn ychwanegu bod y datblygiadau ym maes datganoli yng Nghymru yn ddiweddar hefyd yn gefndir i’r ymgynghoriad hwn.<sup>2</sup> Mae’n nodi:

Bellach mae gan y Cynulliad bwerau deddfu ymhob un o’r ugain maes sydd wedi’u datganoli i Gymru yn dilyn pleidlais gadarnhaol yn y refferendwm a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011 ...

Dylai’r adolygiad helpu i ategu setliad datganoli Cymru drwy beri bod y sefydliadau datganoledig yng Nghymru – y Cynulliad a Llywodraeth Cymru – yn fwy atebol i’r bobl a wasanaethant, a thrwy nodi ble y gellir symleiddio terfynau’r setliad.<sup>3</sup>

Er bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Comisiwn Datganoli yng Nghymru yn ddiweddar (“Comisiwn Silk”)<sup>4</sup> i adolygu’r trefniadau ariannol a chyfansoddiadol yng Nghymru, mae’r Papur Gwyrdd yn nodi nad yw materion yn ymwneud ag ethol Aelodau’r Cynulliad yn rhan o’i gylch gwaith<sup>5</sup> ac y bydd angen delio â hynny ar wahân.

---

<sup>1</sup> Swyddfa Cymru, [Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i’r dyfodol](#), Mai 2012, tudalen 8

<sup>2</sup> Ibid, tudalen 11

<sup>3</sup> Ibid

<sup>4</sup> Mae rhagor o wybodaeth am Gomisiwn Silk ar gael ym mhapur ymchwil [Comisiwn Silk](#) a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ym mis Tachwedd 2011.

<sup>5</sup> Ibid

Wrth siarad ar ôl y cyhoeddiad, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

I want to ensure that we have the right structures in place in Wales to deliver for our citizens and what this consultation does is give everyone the opportunity to contribute their views. We will carefully consider the results of this consultation before deciding on any changes necessary.

We will aim to announce the results of this consultation later in the year and will work closely with institutions in Wales in taking our proposals forward. Any changes that arise will be implemented at the earliest opportunity.<sup>6</sup>

Mae'r Papur Gwyrdd yn cynnwys y cwestiynau canlynol, a bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 13 Awst 2012:

1. A ydyw'n well gennych Opsiwn 1: 40 o etholaethau Cynulliad, a phob un yn cynnwys nifer weddol gyfartal o etholwyr, gan adolygu ffiniau'r etholaethau'n gyfnodol; ynteu Opsiwn 2: adfer y cyswllt rhwng etholaethau Cynulliad a Seneddol drwy newid i Gynulliad o 30 o etholaethau, gyda nifer hafal o Aelodau etholaethol a rhanbarthol (30:30)?
2. Dan yr opsiwn 30 etholaeth, a ydych yn cytuno â chynnig y Llywodraeth y gellid cynyddu neu leihau nifer seddi rhanbarthol y Cynulliad i roi ystyriaeth i unrhyw newid yn nifer etholaethau'r Cynulliad?
3. Sut y dylid strwythuro rhanbarthau etholiadol y Cynulliad dan Opsiwn 1: 40 etholaeth Cynulliad; ac Opsiwn 2: 30 etholaeth Cynulliad?
4. Ydych chi'n meddwl y dylid cynnal etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bob pedair blynedd ynteu bob pum mlynedd? Pam rydych chi'n ffafrio cyfnodau pedair neu bum mlynedd?
5. Ydych chi'n cytuno y dylai ymgeiswyr allu sefyll mewn etholaeth a rhanbarth yn yr un etholiad Cynulliad?
6. Ydych chi'n meddwl y dylai Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru beidio gallu eistedd yn Senedd San Steffan hefyd?

Caiff papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ei gyhoeddi cyn pen tri mis ar ôl dyddiad cau'r ymgynghoriad ar wefan Swyddfa Cymru.<sup>7</sup>

Mae'r papur ymchwil hwn yn crynhoi'r opsiynau a'r cynigion sydd wedi'u cynnwys ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth y DU mewn perthynas â newid trefniadau etholiadol y Cynulliad; mae'n rhoi gwybodaeth gefndir am y cynigion hynny a'r ymatebion cychwynnol iddynt; ac mae'n rhoi trosolwg ar sefyllfa yn yr Alban lle mae ffiniau seneddol y DU a'r Alban wedi'u datgysylltu ers 2004.

<sup>6</sup> Swyddfa Cymru, [Datganiad i'r wasg: Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Cheryl Gillan yn cyhoeddi Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol](#), 21 Mai 2012

<sup>7</sup> Swyddfa Cymru, [Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol](#), Mai 2012, tudalen 34



## 2. Cynigion yn ymwneud â newid etholaethau'r Cynulliad

Mae *Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau Seneddol 2011*<sup>8</sup> yn cynnwys darpariaethau i leihau maint Tŷ'r Cyffredin o 650 i 600 o Aelodau Seneddol erbyn Etholiad Cyffredinol nesaf y DU a gaiff ei gynnal ar 7 Mai 2015. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wrthi'n cynnal adolygiad o etholaethau seneddol Cymru a fydd yn arwain at leihau nifer y seddi seneddol Cymru o 40 i 30.<sup>9</sup>

Mae Deddf 2011 hefyd yn darparu ar gyfer datgysylltu etholaethau seneddol ac etholaethau'r Cynulliad. Mae Adran 13(1) o'r Ddeddf yn nodi:

The Assembly constituencies are the constituencies specified in the *Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) Order 2006* (S.I. 2006/1041)<sup>10</sup> as amended by—

the *Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) (Amendment) Order 2008* (S.I. 2008/1791)<sup>11,12</sup>

Yn ôl Deddf 2011, nid oes angen rhagor o newidiadau i 40 etholaeth y Cynulliad cyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016, nid oes unrhyw fecanwaith ar gael ar hyn o bryd i adolygu ac i addasu'r ffiniau hynny wedyn. Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi bod y datblygiadau hyn yn golygu bod angen newid y trefniadau presennol ar gyfer etholaethau'r Cynulliad ac, o ganlyniad, bod Llywodraeth y DU yn bwriadu bwrw ymlaen ag un o ddau opsiwn.<sup>13</sup> Mae'r ddau opsiwn wedi'u crynhoi isod.

Er bod y Papur Gwyrdd yn cydnabod bod rhai sylwebyddion wedi awgrymu dewisiadau eraill, mae'n nodi'n glir, "Does gennym ni ddim cynlluniau i gyflwyno newidiadau a fyddai'n lleihau'r lefel gyfredol o gyfranoledd yn y Cynulliad".<sup>14</sup>

### 2.1. Opsiwn 1: parhau â'r 40 etholaeth Cynulliad

Byddai'r opsiwn cyntaf a gyflwynir yn y Papur Gwyrdd yn golygu parhau â'r 40 etholaeth Cynulliad ond byddai'n rhaid cyflwyno system newydd ar gyfer adolygu ffiniau etholaethau'r Cynulliad er mwyn sicrhau eu bod yn debycach i'w gilydd o ran maint.

Yn ôl y Papur Gwyrdd, byddai hyn yn golygu pennu set newydd o reolau ar gyfer dosbarthu seddi'r Cynulliad a fyddai'n adlewyrchu'r rheolau hynny a bennwyd ar gyfer ffiniau seneddol yn *Neddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau Seneddol*

<sup>8</sup> *Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau Seneddol 2011* (Pennod 1)

<sup>9</sup> Mae ragor o wybodaeth am y broses hon ar gael yn y papur ymchwil *Yr aolygiad o etholaethau seneddol Cymru* a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ym mis Medi 2011.

<sup>10</sup> *Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006* (Offeryn Statudol, 2006/1041)

<sup>11</sup> *Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2008* (Offeryn Statudol, 2008/1791)

<sup>12</sup> *Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau Seneddol 2011 (c.1), Adran 13(1)*

<sup>13</sup> Swyddfa Cymru, *Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol*, Mai 2012, paragraff 1.3

<sup>14</sup> Ibid, paragraff 1.4

2011. Byddai'r rheolau newydd hyn yn creu 40 o etholaethau ar gyfer y Cynulliad a byddent yn sicrhau bod yn rhaid i nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth fod o fewn 95 y cant i 105 y cant o gwota etholiadol y Cynulliad, sef 58,053 o etholwyr cofrestredig ar hyn o bryd.

Os bydd y 40 etholaeth yn parhau, "nid yw Llywodraeth y DU yn bwriadu newid nifer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad".<sup>15</sup> Mae'r Papur Gwyrdd yn ychwanegu y dylai'r rhanbarthau barhau i gynnwys rhwng saith a naw o etholaethau'r Cynulliad "Ond byddai ffiniau'r pum rhanbarth yn newid o bryd i'w gilydd, gan adlewyrchu'r newidiadau cyfnodol i ffiniau'r 40 etholaeth sy'n creu'r rhanbarthau".<sup>16</sup>

Yn ôl y Papur Gwyrdd, os penderfynir bwrw ymlaen â'r opsiwn hwn, bydd y Llywodraeth yn ceisio deddfu cyn gynted ag y bo modd i sefydlu'r peirianwaith a ddisgrifir yma.<sup>17</sup>

## 2.2. *Opsiwn 2: Ailsefydlu'r cysylltiad rhwng etholaethau'r Cynulliad ac etholaethau senedd y DU*

Byddai'r ail opsiwn yn ailsefydlu'r cysylltiad rhwng etholaethau'r Cynulliad ac etholaethau senedd y DU, gan greu Cynulliad a fyddai'n cynnwys 30 o seddi etholaethol a 30 o seddi rhanbarthol.

Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi mai dyma'r opsiwn yr hoffai Llywodraeth y DU fwrw ymlaen ag ef oherwydd:

Byddai ffiniau cyffredin i'r ddwy set o etholaethau yn ei gwneud yn haws, ac yn fwy cost-effeithiol, i adolygu'r ffiniau hynny i sicrhau bod niferoedd etholwyr yn parhau'n weddol gyfartal, a byddai'n hwyluso democratiaeth leol drwy beri bod trefniadaeth leol pleidiau a rhwydweithiau gwleidyddol yn llai cymhleth.<sup>18</sup>

Mae hyn yn adlewyrchu sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol, a wnaed ar wahân, sef mai'r ateb mwyaf destlus a syml fyddai sicrhau'r un nifer o Aelodau etholaethol ac Aelodau rhanbarthol.<sup>19</sup> Mae'r Papur Gwyrdd, fodd bynnag, yn pwysleisio "nad yw hyn yn ben ar y mater, fodd bynnag, a byddem yn croesawu sylwadau cyrff ac unigolion sydd â diddordeb yn y cynigion hyn i'n helpu i wneud ein penderfyniad".<sup>20</sup>

Drwy ailsefydlu'r cysylltiad rhwng etholaethau'r Cynulliad ac etholaethau Senedd y DU, byddai ffiniau etholaethau'r Cynulliad o dan yr opsiwn hwn yn cael eu hadolygu ar yr un sail ag etholaethau Senedd y DU o dan y rheolau a bennwyd yn *Neddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau Seneddol 2011* (h.y. bob pum mlynedd).

<sup>15</sup> Swyddfa Cymru, *Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol*, Mai 2012, paragraff 1.35

<sup>16</sup> Ibid, paragraff 1.36

<sup>17</sup> Ibid, paragraff 1.21

<sup>18</sup> Swyddfa Cymru, *Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol*, Mai 2012, paragraff 1.24

<sup>19</sup> Cymru Ar-lein, *Cheryl Gillan yn awgrymu y gellid lleihau nifer Aelodau'r Cynulliad*, 21 Mai 2012

<sup>20</sup> Ibid, paragraff 1.31

Byddai unrhyw newidiadau yn nifer etholaethau seneddol yng Nghymru yn y dyfodol felly'n gymwys hefyd i etholaethau'r Cynulliad. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r opsiwn hwn, mae'r Papur Gwyrdd yn cydnabod y "byddai angen peirianwaith felly i sicrhau nad yw newidiadau yn nifer yr etholaethau'n arwain at nifer lai neu fwy o Aelodau Cynulliad yn gyffredinol".<sup>21</sup> Mae hefyd yn nodi:

Cynnig y Llywodraeth yw, pe bai newid yn y dyfodol yn nifer etholaethau'r Cynulliad, y gwneid y gwahaniaeth i fyny drwy gynyddu neu leihau nifer aelodau rhanbarthol y Cynulliad.<sup>22</sup>

Yn ôl yr opsiwn hwn, mae'r Papur Gwyrdd yn nodi y byddai Llywodraeth y DU o blaid cadw'r pum rhanbarth etholiadol. Byddai pob rhanbarth yn cynnwys chwe etholaeth a byddai chwe Aelod Cynulliad yn cynrychioli pob un.<sup>23</sup>

Os bydd nifer yr etholaethau yn rhywbeth gwahanol i 30, mae Llywodraeth y DU yn cynnig y dylai'r Comisiwn Ffiniau:

...greu pum rhanbarth, na fyddai o reidrwydd yn cynnwys nifer gyfartal o etholaethau, nac yn ethol nifer gyfartal o Aelodau Cynulliad. Byddid yn cadw chwarae teg ym mhwyysau'r bleidlais drwy ddyrannu seddi yn ôl dull Sainte-Laguë.<sup>24 25</sup>

Er bod y Papur Gwyrdd yn cydnabod bod ffyrdd eraill o newid nifer yr etholaethau, nid yw Llywodraeth y DU yn ffafrio unrhyw ddull arall.<sup>26</sup>

Dewis arall i'r trefniant hwn fyddai disodli rhanbarthau etholaethol y Cynulliad ag un rhestr genedlaethol i Gymru gyfan. Mae Llywodraeth y DU yn gwrthwynebu hyn gan ddweud y byddai rhestr genedlaethol yn creu mwy o bellter rhwng yr aelodau rhanbarthol a'u hetholwyr.<sup>27</sup> Posibiliadau eraill a wrthodwyd oedd pennu ffiniau'r rhanbarthau gan ddiystyru unrhyw newidiadau i'r ffiniau etholiadol yn y dyfodol, a gwrthod yr egwyddor o gysylltu'r etholaethau seneddol ac etholaethau'r Cynulliad os caiff ffiniau seneddol Cymru eu newid yn y dyfodol.

---

<sup>21</sup> Swyddfa Cymru, *Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol*, Mai 2012, paragraff 1.28

<sup>22</sup> Ibid

<sup>23</sup> Ibid, paragraffau 1.37-1.38

<sup>24</sup> Mae fformiwla "Sainte-Laguë" yn gweithredu'n fras fel a ganlyn. Dilyniir y fformiwla (nifer yr etholwyr /((2 x nifer y seddi sydd eisoes wedi'u dyrannu) + 1) ar gyfer pob rhanbarth. Wedi i bob sedd gael ei dyrannu, defnyddir y fformiwla eto - dyrennir y sedd nesaf i'r rhanbarth sydd â'r nifer fwyaf o etholwyr wedyn. Parheir â'r broses nes bod pob sedd wedi'i dyrannu.

<sup>25</sup> Ibid, paragraff 1.40(ii)

<sup>26</sup> Ibid, paragraff 1.41

<sup>27</sup> Ibid, paragraff 1.43

### 3. Cynigion eraill yn y Papur Gwyrdd

#### 3.1. *Hyd tymhorau'r Cynulliad*

O ganlyniad i *Ddeddf Seneddau Tymor Penodol 2011*,<sup>28</sup> cynhelir Etholiad Cyffredinol nesaf y DU ar 7 Mai 2015, a chynhelir etholiad cyffredinol bob pum mlynedd wedi hynny.

Mae Adran 3 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*<sup>29</sup> ("Deddf 2006") yn darparu ar gyfer tymhorau penodol o bedair blynedd ar gyfer y Cynulliad. Fodd bynnag, gan y byddai hyn yn golygu cynnal etholiadau nesaf y Cynulliad yr un diwrnod ag Etholiad Cyffredinol y DU, roedd darpariaethau yn *Ddeddf Seneddau Tymor Penodol 2011* i ohirio etholiadau nesaf y Cynulliad tan 5 Mai 2016. Yn dilyn yr etholiad hwnnw, fodd bynnag, pedair blynedd fydd tymor y Cynulliad, sy'n golygu, ar ôl 2016, y caiff y set nesaf o etholiadau eu cynnal ym mis Mai 2020; yr un diwrnod ag Etholiad Cyffredinol y DU.

O ganlyniad i hyn, mae'r Papur Gwyrdd yn nodi bod Llywodraeth y DU yn ystyried goblygiadau cyd-daro rhwng y ddwy set o etholiadau yn y dyfodol. Mae'n ychwanegu:

Does gan y Llywodraeth ddim barn bendant ynghylch a ddylai'r deddfwrfeydd datganoledig gael cyfnodau pedair neu bum mlynedd. Fe roddwn ystyriaeth ofalus i ymatebion y prosesau ymgynghori, a sylweddolwn y gall yr ymgynghoriadau roi canlyniadau gwahanol i'w gilydd. Os penderfyna'r Llywodraeth o blaid gosod tymor pum mlynedd i unrhyw rai neu bob un o'r deddfwrfeydd datganoledig, byddwn yn ceisio gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol cyn gynted ag y bydd amser y Senedd yn caniatáu.<sup>30</sup>

Cynhelir ymgynghoriadau ar wahân yn ymwneud â hyd tymhorau Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.<sup>31</sup>

#### 3.2. *Ymgeiswyr deuol*

Mae Adran 7(5) o Ddeddf 2006 yn gwahardd ymgeiswyr rhag sefyll yr un pryd ar gyfer sedd etholaethol a sedd ranbarthol yn etholiadau'r Cynulliad (sef 'ymgeiswyr deuol'). Mae'r Papur Gwyrdd, fodd bynnag, yn nodi bod Llywodraeth y DU o blaid codi'r gwaharddiad mewn etholiadau yn y dyfodol, gan gynnig y rhesymau a ganlyn dros hynny:

Mae'n cael effaith anghymesur ar bleidiau llai, na fyddai, wrth reswm, yn dymuno risgio'u cronfa lai o ymgeiswyr mewn etholaeth pan allai fod cyfle iddynt gael eu hethol o'r rhestr

<sup>28</sup> *Deddf Seneddau tymor penodol 2011* (Pennod 14)

<sup>29</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Pennod 32)

<sup>30</sup> Swyddfa Cymru, *Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol*, Mai 2012, paragraffau 2.7 a 2.8

<sup>31</sup> *Ibid*, paragraff 2.7

ranbarthol. Yn yr un modd, os yw plaid yn gwneud yn well na'r disgwyl yn yr etholaethau, mae'n annhebygol y caiff ymgeiswyr ar restr ranbarthol y blaid honno eu hethol.<sup>32</sup>

Mae'r Papur Gwyrdd hefyd yn cyfeirio at [adroddiad Comisiwn Arbuthnott 2006](#) a ddaeth i'r casgliad bod y rheol yn gwahardd ymgeiswyr deuol yn cyfyngu'n ddiangen ar hawliau democrataidd darpar ymgeiswyr, pleidiau ac etholwyr lleol<sup>33</sup> ac mae'n cyfeirio hefyd at adroddiad a gyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol yn 2006 yn ymwneud ag agweddau pobl Cymru tuag etholiadau'r Cynulliad, ac a nododd "nad oedd ymgeisyddiaeth ddeuol yn cael fawr ddim effaith o ran gwneud i bobl beidio â phleidleisio".<sup>34</sup>

O ganlyniad, mae'r Papur Gwyrdd yn nodi bod Llywodraeth y DU "yn bwriadu newid y gyfraith i ddileu'r gwaharddiad hwn, gan ganiatáu i ymgeiswyr sefyll mewn etholaeth ac mewn rhanbarth yn etholiadau'r Cynulliad".<sup>35</sup>

### 3.3. *Mandadau lluosog*

Ar hyn o bryd, nid oes rheolau'n gwahardd Aelodau'r Cynulliad rhag bod yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi hefyd (gelwir hyn hefyd yn 'fandad deuol' neu 'ddyblu swyddi'). O ganlyniad, mae'r Papur Gwyrdd yn nodi ei fod yn gofyn am sylwadau ynghylch dod â'r arfer hwn i ben "Gellid cyflawni hyn yn syml drwy gytundeb rhwng y pleidiau gwleidyddol ond bydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried deddfu i sicrhau parhad gwaharddiad".<sup>36</sup>

---

<sup>32</sup> Swyddfa Cymru, [Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol](#), Mai 2012 paragraff 3.6

<sup>33</sup> Commission on Boundary Differences and Voting Systems, [Putting Citizen's First: Boundaries, Voting and Representation in Scotland](#), Ionawr 2006, tudalen 44

<sup>34</sup> Y Comisiwn Etholiadol, [Cymru - ar flaen y gad: agweddau'r cyhoedd tuag at etholiadau'r Cynulliad](#), 2006, tudalen 44

<sup>35</sup> Swyddfa Cymru, [Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol](#), Mai 2012 paragraff 3.7

<sup>36</sup> Ibid, paragraff 4.5

## 4. Ymatebion<sup>37</sup>

Ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyrdd ar **21 Mai**, ymatebodd Prif Weinidog Cymru, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, drwy ddweud:

There is no mandate for this. The electoral system for the assembly is a matter for the people of Wales and no one else. The Prime Minister has assured me that there would be no change to future electoral arrangements without the agreement of the assembly.<sup>38</sup>

Mewn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar araith y Frenhines ar **23 Mai 2012**, cafwyd y sgwrs a ganlyn rhwng arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood AS, a'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y cynigion i newid ffiniau etholiadol:

**Leanne Wood:** Trof at eich Papur Gwyrdd, a gyhoeddwyd yn gynharach yr wythnos hon, ar ddiwygio etholiadau i'r Cynulliad. Gan roi o'r neilltu am eiliad y ffaith y gall ymddangos yn warthus bod gwleidyddion yn trafod eu system etholiadol eu hunain, byddwn yn dadlau, gan fod yn rhaid penderfynu ar faterion o'r fath, y dylai'r penderfyniad ynghylch y system etholiadol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei wneud yng Nghymru ac nid gan Ysgrifennydd Gwladol nad yw'n gallu pleidleisio yn yr etholiadau hynny hyd yn oed. Mae Plaid Cymru wedi dadlau ers amser mai'r bleidlais sengl drosglwyddadwy yw'r system etholiadol decaf a mwyaf cynrychiadol. Mae argymhellion comisiwn Richard yn cefnogi ein safbwynt. A oes unrhyw un yma yn cofio comisiwn Richard? Yn olaf, pe baech yn cael tystiolaeth yn dadlau o blaid gweithredu argymhellion comisiwn Richard, a fydddech yn barod i barhau i ystyried hynny o leiaf?

**Cheryl Gillan:** ... Papur Gwyrdd yw'r papur a gyhoeddwyd gennyf ar y system etholiadol ar gyfer y Cynulliad. Ceir cyfnod ymgynghori o 12 wythnos. Nid wyf yn dweud wrth neb beth i'w wneud; rwyf yn gofyn am farn pobl, ac rwyf am glywed gan bob un ohonoch. Rydych yn llygad eich lle; mae elfen o hunan-les yn perthyn i hyn o safbwynt pob gwleidydd. Nid gan wleidyddion yn unig rwyf am glywed; rwyf am glywed gan bobl y tu allan i'r Cynulliad. Mae Papur Gwyrdd yn bapur sy'n cael ei gyflwyno i'w drafod. Dywedais yn glir iawn ym mhob un o'm cyfweiliadau ddydd Llun fy mod wedi mynegi barn am yr hyn a fyddai orau gennyf, ond nid yw hynny'n golygu fy mod yn gul fy meddwl. [*Chwerthin.*] Peidiwch â chwerthin, oherwydd nid wyf yn gul fy meddwl; mae gennyf feddwl agored iawn am y peth ...

Fodd bynnag, nid yw'n rhywbeth sy'n gallu parhau'n ddigyfnewid. Nid oedd y setliad yn cynnwys dull o adolygu ffiniau seddi'r Cynulliad, ac mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid ei adolygu'n gyson, yn yr un modd ag unrhyw ffiniau etholiadol eraill. Edrychaf ymlaen at glywed awgrymiadau pob un ohonoch. Rwyf hefyd yn gofyn i bobl Cymru. Mae'r Papur Gwyrdd hwn wedi'i anelu nid yn unig at Aelodau'r Cynulliad, ond at bobl Cymru, ac rwyf yn awyddus i glywed beth yw barn pobl.<sup>39</sup>

Yn y **Cyfarfod Llawn ar 12 Mehefin 2012**, bu Aelodau'r Cynulliad hefyd yn dadlau ynghylch cynnig Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r cynigion yn y Papur

<sup>37</sup> Mae crynodeb o ddadleuon cynharach ynghylch a ddylid lleihau nifer etholaethau'r Cynulliad i gyfateb i ostyngiad cyfatebol ar gael ym Mhennod 3.1 o bapur ymchwil [Yr aolygiad o etholaethau seneddol yng Nghymru](#) a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ym mis Medi 2011.

<sup>38</sup> Newyddion y BBC, [Pleidleisio ar gyfer y Cynulliad: Cheryl Gillan yn cynnig seddi newydd ar gyfer etholiad 2016](#), (Saesneg yn unig) 21 Mai 2012

<sup>39</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn](#), 23 Mai 2012

Gwyrdd. Yn ei sylwadau agoriadol, amlinellodd y Prif Weinidog y rhesymau dros gynnal y ddadl:

The motion invites the Assembly to agree that no change to its current electoral arrangements should be made without the Assembly's consent. This is the fundamental constitutional principle that I invite Members to agree with. It is a necessary consequence of a constitution based upon the principle of devolution.

If we look at the case of the Scotland Act 2012, conferring new powers on the Scottish Parliament, the legislative process was only taken through to its conclusion once the Scottish Parliament had formally given its consent to the proposals. The same principle ought surely to apply to proposed changes to a devolved legislature's electoral arrangements.<sup>40</sup>

Mewn perthynas â'r cynigion yn y Papur Gwyrdd, dywedodd y Prif Weinidog:

The Green Paper asserts that it is not the UK Government's intention to give advantage to any political party. That is commendable if it is correct, but it is entirely unclear whether the specific proposal endorsed by the UK Government for an Assembly of 30 constituency Members and 30 regional Members reflects that intention. No modelling has been offered based, for example, on previous electoral data to show that it represents political neutrality. In fact, the suspicion will always linger that the change is being proposed for certain advantage ...

I note that the option rejected by the Secretary of State for Assembly constituency boundaries to be different from the boundaries of parliamentary constituencies already exists in Scotland. Given that the Secretary of State does not favour such an arrangement, we might have expected that conclusion to be based on evidence from an analysis of the Scottish experience. However, the Green Paper does not offer any such analysis. The reality is that the UK Government would not impose such a change on the people of Scotland but it is being suggested for the people of Wales. That is of huge regret.<sup>41</sup>

Soniodd Dafydd Elis-Thomas AC a Phrif Weinidog Cymru hefyd am y sicrwydd a gafwyd gan Brif Weinidog Senedd San Steffan na fyddai ffiniau'r Cynulliad yn newid o ganlyniad i'r newidiadau i ffiniau San Steffan:

**Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas:** Would it surprise the First Minister to know that, when I was Presiding Officer in a previous life, I received assurances from the Prime Minister of the United Kingdom and the same Secretary of State that there would be no change in our boundaries to coincide with Westminster boundaries?

**Y Prif Weinidog:** I received an assurance on two occasions from the Prime Minister that there would be no change without the consent of the Assembly, and I am on record as saying that. I took that assurance in good faith and I expect it to be adhered to.<sup>42</sup>

Roedd Prif Weinidog Cymru yn llai beirniadol o'r cynigion eraill yn y Papur Gwyrdd, fodd bynnag, yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â chynyddu tymhorau'r Cynulliad o bedair i bum mlynedd:

---

<sup>40</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn](#), 12 Mehefin 2012

<sup>41</sup> Ibid

<sup>42</sup> Ibid

I do not want to be wholly negative about the Green Paper. I welcome, for example, the consultation on whether the Assembly should have five-year terms. It is a widely held view in the Chamber that clashes with UK general elections are to be avoided.<sup>43</sup>

Wrth ymateb i sylwadau'r Prif Weinidog, cafwyd y sylwadau a ganlyn yn arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr yn y Cynulliad, , Andrew R.T. Davies AS:

I take the First Minister's point on Scotland and the Scotland Act. As an individual, I think that the Assembly should determine its own boundaries. As a primary legislature, that is an important point to discuss in the future. I hope that there will be consensus in the Chamber to achieve that ability.

However, at the moment, that ability does not exist in the Assembly. Electoral change is being undertaken across the United Kingdom, via the constituencies and boundaries Bill that is going through Westminster at the moment and the boundary commission review. Therefore, I think that the Green Paper is opportune. Like the First Minister, I welcome the options on re-linking constituency and regional Members. I welcome the discussion on the five-year or 10-year period of this institution so that its elections do not clash with Westminster's. It is important that there be a clear distinction between an Assembly election and a general election.<sup>44</sup>

Roedd arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams AS, yn croesawu'r cynigion yn y Papur Gwyrdd yn ymwneud â newid y ffiniau:

... our guiding principle is to increase the proportional element in the National Assembly for Wales. We believe that having 30 regional Members and 30 constituency seats would be the best way of achieving that ... We also believe that the 30/30 split would be simpler and cheaper. It would be simpler because, if the boundary changes go ahead for parliamentary constituencies, the National Assembly could have the same boundaries. I note what the First Minister has said today about his lack of concern about differing constituency boundaries, but, as Peter Hain so eloquently said, that would create

'a great deal of confusion for voters, for parties and for the wider public'.

I am sure that the First Minister would agree with me, and Peter Hain, that we must avoid that at all costs. A 30/30 split would also be cheaper, because of the avoidable cost of some £1.7 million in the first instance, ahead of the next elections, to carry out a boundary review, if Wales were to have the same constituencies as those currently being considered for Westminster by the boundary commission.<sup>45</sup>

Roedd yn feirniadol o rai o sylwadau'r Prif Weinidog:

... I have noted a certain lack of consistency in the First Minister's arguments here this afternoon. First, he says that we should have no changes to the electoral arrangements for this place without recourse to the public in Wales. I do not remember us doing that last year when we and Westminster agreed to extend this Assembly term to five years. He goes on to welcome certain aspects of the Green Paper, which I would regard as a change to the electoral arrangements of this place.

---

<sup>43</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn](#), 12 Mehefin 2012

<sup>44</sup> Ibid

<sup>45</sup> Ibid



Some of us will remember that it was a Labour Secretary of State that drafted the Government of Wales Act 2006, in which elections to the National Assembly for Wales were reserved as a matter for Westminster. It was never disputed by anyone on the Labour benches then. At that time, the Labour Party had no interest in giving Wales a say on how the Assembly was elected, otherwise it would have devolved the powers at that point. You may also remember, Carwyn, that, in 2006, the Westminster Labour Government put a stop to dual candidacy in the Assembly elections. The UK Labour Government did not get the Assembly's consent at that time, and I wonder what has caused this recent conversion to the cause of the Assembly by the Labour Party.<sup>46</sup>

### Cododd Ieuan Wyn Jones AS y materion a ganlyn:

Rwyf yn cytuno gyda phawb sydd wedi siarad heddiw mai mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw penderfynu ar ein trefniadau etholiadol. Rydym ni i gyd yn cytuno â hynny. Yn ail ...dylai unrhyw newid yn y trefniadau fynd ymhellach ar hyd llwybr cyfranoldeb yn hytrach na mynd yn ôl i drefn y cyntaf heibio i'r postyn.<sup>47</sup>

### Er ei fod yn credu mai'r Cynulliad oedd yn y lle mwyaf priodol i benderfynu ynghylch trefniadau etholiadol y Cynulliad, ychwanegodd:

...rhaid i'r Prif Weinidog dderbyn mai'r Blaid Lafur yw'r blaid fwyaf yn y Cynulliad Cenedlaethol ac, felly, mae'n rhaid i ni gael mwy o gonsensws os ydym yn mynd i newid trefniadau. Yn fy marn i, byddai angen pleidlais gan o leiaf dwy ran o dair o Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol o blaid newid y drefn etholiadol. Fel arall, ni fyddai un bleidlais o blaid newid mor sylfaenol yn ddigon. Byddai angen cael y berthynas honno. Rwy'n meddwl y byddai hynny'n golygu y byddai pobl Cymru yn llawer mwy parod i dderbyn unrhyw newid. Mae'n wireb mai buddiannau pobl Cymru ddylai fod y flaenoriaeth yn yr achos hwn, nid buddiannau plaid neu bleidiau penodol.<sup>48</sup>

### Wrth ymateb i'r pwynt hwn, dywedodd y Prif Weinidog:

Gwell hynny na dim pleidlais o gwbl. Gwell hynny na bod y Cynulliad yn mynegi barn heb fod y farn honno yn cael ei hystyried o gwbl gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Rwy'n credu bod honno'n rhywbeth a ddylai gael ei ystyried yn y dyfodol a'i bod yn rhywbeth hollbwysig a sylfaenol ynglŷn â'r Cynulliad.<sup>49</sup>

### Cytunodd Julie Morgan AS mai'r Cynulliad ddylai ystyried unrhyw newidiadau i systemau etholiadol y Cynulliad a dywedodd nad oedd gan Lywodraeth y DU fandad i wneud y cynigion:

I echo the First Minister's view that there is no mandate for this proposal for change put forward by the Secretary of State. In fact, it is amazing that the Secretary of State has come forward with this Green Paper at this particular time, especially in view of the fact that the First Minister has told us that he had the assurances of the Prime Minister that this would not happen. We have learnt this afternoon that the former Presiding Officer also had assurances that this would not happen. It seems an amazing breach of trust that this is happening, and I would be interested to know whether the First Minister has had any personal communication

<sup>46</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn](#), 12 Mehefin 2012

<sup>47</sup> Ibid

<sup>48</sup> Ibid

<sup>49</sup> Ibid

from David Cameron explaining this change in his views. Otherwise, this is acting in a cavalier way ...

Any important constitutional change like this should be in a manifesto before an election or should be voted for in a referendum ... this Green Paper shows fundamental disrespect for the Assembly and its wishes.<sup>50</sup>

### Roedd Rebecca Evans AS o'r un farn

The bottom line is that no changes should be made to the electoral system without the expressed consent of the National Assembly for Wales and the support of the Welsh people through an election where changes are clear manifesto pledges or through a referendum. A Green Paper is absolutely not sufficient. In the interests of democracy, changes of this significance must be subject to wide public awareness raising, a two-way discussion and mature debate. A 12-week consultation does not fit that bill.<sup>51</sup>

### Roedd Mick Antoniw AS yn feirniadol o gynigion y Papur Gwyrdd:

It is an unusual Green Paper because it sets out preferences and intentions, rather than solely seeking views and opinions on principles and issues. It also comes at a time that I would say is inappropriate. I say this because we have the Silk commission undertaking important work with regard to fiscal powers, as is referred to in chapter 2 of the Green Paper and again with regard to Silk 2. The Green Paper also makes unnecessary and unfortunate premature commitments in respect of the size of the Assembly, something that desperately needs to be addressed in the near future.<sup>52</sup>

**Mae'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyrdd yn parhau, a daw i ben ar 13 Awst 2012.**

---

<sup>50</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn](#), 12 Mehefin 2012

<sup>51</sup> Ibid

<sup>52</sup> Ibid

## 5. Datgysylltu etholaethau yn yr Alban<sup>53</sup>

Mae etholaethau seneddol yr Alban ac etholaethau seneddol y DU wedi'u datgysylltu ers Etholiad Cyffredinol y DU yn 2005. Roedd hyn o ganlyniad i *Ddeddf Senedd yr Alban (Etholaethau) 2004*<sup>54</sup> ("Deddf 2004") a gafodd wared ar y cysylltiad statudol rhwng yr etholaethau ar gyfer Senedd yr Alban a'r etholaethau ar gyfer Tŷ'r Cyffredin yn unol â *Deddf yr Alban 1998*.<sup>55</sup> Roedd Deddf 2004 hefyd yn sicrhau bod cyfanswm nifer Aelodau Senedd yr Alban yn aros yn 129.

Mewn ymateb i bapur ymgynghorol Llywodraeth y DU a oedd yn rhagflaenu cyflwyno *Bil Senedd yr Alban (Etholaethau)* yn Senedd y DU, mynegwyd pryderon ynghylch effaith cael ffiniau gwahanol ar gyfer etholaethau San Steffan ac ar gyfer etholaethau Senedd yr Alban.<sup>56</sup> Gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Alban ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Helen Liddell AS, ddatganiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn ar 18 Rhagfyr 2002 ac roedd yn cydnabod pryderon ynghylch gweithredu ffiniau gwahanol ar gyfer San Steffan a Holyrood. Mewn ymateb, awgrymodd y dylid sefydlu comisiwn annibynnol i archwilio'r problemau a achosir gan ffiniau gwahanol a gwneud argymhellion ar y mater.<sup>57</sup>

Cyhoeddwyd bod *Comisiwn ar Wahaniaethau o ran Ffiniau a Systemau Pleidleisio* wedi'i greu gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Alastair Darling AS, yn ystod y ddadl ar ail ddarlleniad *Bil Senedd yr Alban (Etholaethau)* ar 9 Chwefror 2004. Ei gylch gorchwyl fyddai i:

... examine the consequences of having four different voting systems in Scotland, and different boundaries between Westminster and Holyrood. It will consider the implications for voter participation, the relationship between public bodies and authorities in Scotland and MPs and MSPs, and the representation of constituents by different tiers of elected members. It will be asked to make representations on whether the consequences require action to be taken in respect of arrangements between elected representatives, to ensure that constituents and organisations receive the best possible service; the pattern of electoral boundaries in Scotland; the relationship with other public bodies and authorities in Scotland; and the method of voting in Scottish parliamentary elections.<sup>58</sup>

Sefydlwyd y Comisiwn yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2004 o dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr John Arbuthnott a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar 9 Medi 2004. Cyhoeddodd ei **adroddiad** ar 19 Ionawr 2006. Nododd yr adroddiad yr argymhellion a ganlyn mewn cysylltiad â ffiniau:

<sup>53</sup> Ymddangosodd fersiwn o'r bennod hon yn y papur ymchwil [Adolygiad o etholaethau seneddol Cymru](#) a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ym mis Medi 2011.

<sup>54</sup> [Deddf Senedd yr Alban \(Etholaethau\) 2004 \(c.13\)](#)

<sup>55</sup> [Deddf yr Alban 1998 \(c.46\)](#)

<sup>56</sup> [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Standard Note: The Arbuthnott report and Scottish elections SN/PC/03918, 21 Mai 2007, tudalen 3](#)

<sup>57</sup> Trafodion Tŷ'r Arglwyddi 18 Rhagfyr 2002 c859

<sup>58</sup> Trafodion Tŷ'r Cyffredin 9 Chwefror 2004 c1151

- Having the same constituencies for the Scottish Parliament and Westminster is desirable but not essential and should not drive change to the electoral system for the Scottish Parliament.
  - The boundaries for Scottish Parliamentary constituencies should be within and respect local authority areas rather than Westminster constituencies.
  - Scottish Parliament regions should be revised to reflect natural local communities and identity and should be built on local authority areas.
  - The functions of the Boundary Commission for Scotland and the Local Government Boundary Commission for Scotland should be combined to enable the constituencies and regions for the Scottish Parliament and local authorities to be reviewed together.
- Consideration should also be given to integrating the review of Westminster constituencies in Scotland into this process.<sup>59</sup>

Hefyd, canfu'r Comisiwn mai ychydig o ddi-ddordeb mewn lleoliad ffiniau a ddangoswyd gan unigolion a gafodd eu cyfweld yn eu grwpiau ffocws, a nodwyd nad oedd hyn yn fater a fyddai'n eu hatal rhag pleidleisio. Roedd y Comisiwn Etholiadol hefyd wedi nodi nad oedd dim tystiolaeth yn yr Alban a oedd yn awgrymu bod materion ynghylch ffiniau'n dylanwadu o gwbl ar nifer y bobl a oedd yn pleidleisio mewn etholiadau. Cefnogwyd hyn hefyd gan dystiolaeth ryngwladol a ddangosai nad oedd cydffinio'n arferol yn y rhan fwyaf o wledydd sydd â llywodraethau aml-lefel.<sup>60</sup>

Mewn ymateb, roedd Llywodraeth y DU yn:

... pleased to note that the Commission was able to confirm that having different boundaries between the constituencies of the House of Commons and those of the Scottish Parliament is not a matter which requires further action and should not drive change to the electoral system for the Scottish Parliament.<sup>61</sup>

Fodd bynnag, canfu adroddiad a gomisiynwyd gan awduron y Comisiwn fod y mwyafrif helaeth o Aelodau Seneddol yr Alban yn gwrthwynebu dod â chydffinio i ben. Yn ôl yr adroddiad, y prif resymau am hyn oedd:

- Trefniadaeth leol y pleidiau.
- Ymgyrchu gan y pleidiau gwleidyddol
- Diffyg eglurder i etholwyr.
- Anawsterau logistaidd i aelodau wrth drefnu gwasanaethau etholaethol lleol.
- Anawsterau logistaidd i grwpiau lleol.
- Perygl ychwanegol o gystadleuaeth rhwng aelodau etholedig.<sup>62</sup>

<sup>59</sup> [Commission on Boundary Differences and Voting Systems, \*Putting Citizen's First: Boundaries, Voting and Representation in Scotland\*, Ionawr 2006, tudalen 21](#)

<sup>60</sup> [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, \*Standard Note: The Arbuthnott report and Scottish elections SN/PC/03918\*, 21 Mai 2007, tudalen 5](#)

<sup>61</sup> [Swyddfa'r Alban, \*Response by the Secretary of State for Scotland to the Report of the Commission on Boundary Differences and Voting Systems \(Arbuthnott Commission\)\*, 23 Ionawr 2007](#)

<sup>62</sup> Bradbury, J and Russell, M (2005) [The Local Work of Scottish MPs and MSPs: Effects of Non-coterminous Boundaries and AMS, Report to the Commission on Boundary Differences and Voting Systems](#). Uned Gyfansoddiadol Coleg Prifysgol Llundain a Phrifysgol Cymru Abertawe, tudalennau 27 - 28